

Y Cyfrifiad a Darparu Ystadegau o'r Boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y Dyfodol: Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

Mawrth 2014

Am ragor o wybodaeth:

Chwiliwch Y Tu Hwnt i 2011 @ www.ons.gov.uk <http://www.ons.gov.uk> neu cysylltwch â:
beyond2011@ons.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2014

Y Cyfrifiad a Darparu Ystadegau o'r Boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y Dyfodol : Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Cyhoeddus

Tabl cynnwys

Crynodeb gweithredol	3
1 Cyflwyniad	7
1.1 Cefndir	7
1.2 Cwmpas	7
2 Dadansoddiad o'r ymatebwyr.....	9
2.1 Ymatebwyr	9
2.2 Defnydd o ddata.....	9
2.3 Defnydd o ddata yn ôl y math o ymatebydd.....	11
3 Ansawdd cynnyrch ystadegol.....	12
3.1 Ystadegau ar gyfer ardaloedd bach a grwpiau bach o'r boblogaeth	12
3.2 Amllder	15
3.3 Materion eraill yn ymwneud ag ansawdd ystadegol.....	16
4 Ymarferoldeb a chostau cyfrifiad ar-lein a data gweinyddol.....	17
4.1 Cyfrifiad ar-lein	17
4.2 Data gweinyddol ac arolygon	18
5 Preifatrwydd, cyfrinachedd a derbynioldeb y cyhoedd.....	21
5.1 Cyfrifiad ar-lein	21
5.2 Data gweinyddol ac arolygon	22
6 Cydraddoldeb.....	24
6.1 Cyfrifiad ar-lein.....	24
6.2 Data gweinyddol ac arolygon	24
7 Yr Astudiaeth Hydredol, Samplau o Gofnodion Dienw a data 'rhyngweithiol'. 27	27
7.1 Defnyddio AH, SGDau a data rhyngweithiol at ddibenion ymchwil	27
7.2 Colli data lefel cofnodion a data rhyngweithiol.....	28
8 Cymru	29
8.1 Y Gymraeg.....	29
8.2 Rhannau anghysbell o Gymru	29
8.3 Amddifadedd ac allgáu digidol.....	30
9 Hanes y teulu ac ymchwil hanesyddol	31

9.1	Gwerth cyfrifiad bob deng mlynedd	31
9.2	Agwedd at newid.....	31
9.3	Data gweinyddol ac ymchwil hanes y teulu	32
10	Newid a risg.....	33
10.1	Yr angen am newid	33
10.2	Cefnogi newid i gyfrifiad ar-lein	33
10.3	Cefnogi mwy o ddefnydd o ddata gweinyddol	33
10.4	Risgiau newid yn rhy gyflym.....	34
10.5	Opsiynau 'cyd-redeg'	35
10.6	'Cyd-redeg' wrth newid i opsiwn data gweinyddol.....	36
10.7	'Cyd-redeg' fel ateb parhaol	36
10.8	Awgrymiadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol	37
	Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad	39
	Atodiad B: Rhestr o ymatebwyr.....	40
	Atodiad C: Digwyddiadau a chyfarfodydd yr ymgynghoriad.....	50
	Atodiad D: Mathau o ddefnydd yn ôl sector	51

Crynodeb gweithredol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi cynnal adolygiad o'r cyfrifiad a'r broses o ddarparu ystadegau o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol. Rhan olaf y broses hon oedd cynnal ymgynghoriad cyhoeddus mawr, a wnaeth gynnig dwy ffordd o gynnal cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol:

- unwaith bob degawd, fel yr un a gynhaliwyd yn 2011, ond ar lein yn bennaf
- gan ddefnyddio data sydd gan y llywodraeth eisoes ac arolygon blynyddol gorfodol

Byddai'r ddau dull yn darparu ystadegau ynghylch maint y boblogaeth, yn genedlaethol ac ar gyfer awdurdodau lleol. Byddai cyfrifiad sy'n defnyddio data ac arolygon presennol yn darparu ystadegau mwy mynych ynghylch nodweddion y boblogaeth, tra byddai cyfrifiad ar-lein yn darparu ystadegau manylach unwaith bob degawd.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos rhwng 23 Medi a 13 Rhagfyr 2013. Cafwyd dros 700 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 444 gan unigolion a 271 gan sefydliadau. Daeth dros 500 o bobl i ddiwyddiadau a gynhaliwyd i ategu'r ymgynghoriad. Hoffai SYG ddiolch i ddefnyddwyr am yr amser a'r gofal amlwg a gymerwyd gyda'u hymatebion.

Rhestrir yr holl sefydliadau ac unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad B, a chyhoeddir yr ymatebion i'r [ymgynghoriad ar lein](#). Roedd llawer o'r ymatebion a gafwyd gan sefydliadau yn cynnwys ymatebion wedi'u coladu oddi wrth sawl corff neu unigolyn.

Er bod barn ymatebwyr yn amrywio, cafwyd rhai negeseuon cyson. Yn arbennig:

- roedd galw parhaus ymhlith y llywodraeth, awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, byd busnes, y sector gwirfoddol, academia a dinasyddion unigol am wybodaeth fanwl am ardaloedd bach a phoblogaethau bach a gynigiwyd gan y cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd, boed hynny ar lein neu ar bapur;
- roedd cryn bryder na fyddai'r defnydd arfaethedig o arolwg blynyddol o 4 y cant o gartrefi (i ategu'r defnydd o ddata gweinyddol sy'n bodoli eisoes) yn diwallu'r anghenion hyn, nac yn darparu'r ystadegau gofynnol o ran ardaloedd bach a phoblogaethau bach a gynigir gan y cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd;
- byddai'r ystadegau mwy mynych y gellid eu darparu rhwng cyfrifiadau drwy ddefnyddio data gweinyddol ac arolygon blynyddol yn cael eu croesawu, ond nid ar draul yr ystadegau manwl;
- er bod y defnydd o ddata gweinyddol ac arolygon yn dangos cryn potensial, roedd pryder nad oedd y rhain yn ddigon aeddfed eto i gymryd lle'r cyfrifiad bob deng mlynedd;
- cynigiodd llawer o ymatebwyr gamau hybrid, gan wneud y defnydd gorau o'r ddau dull, gyda chyfrifiad ar-lein yn 2021 wedi'i ategu gan ddata gweinyddol ac arolygon o gartrefi.

Mae'r adroddiad hwn ar yr ymgynghoriad yn amlinellu'r prif bwyntiau a godwyd, a ddangosir drwy ddyfyniadau ymatebwyr. Crynhoir y prif bwyntiau isod.

Ansawdd cynnyrch ystadegol

- Croesawyd y potensial i gynhyrchu cynnyrch mwy mynych o'r data gweinyddol a'r arolygon gan lawer o ymatebwyr. Ar raddfa o 'isel', 'canolig' neu 'uchel', roedd 75 y cant o'r sefydliadau a 51 y cant o'r unigolion a ymatebodd o'r farn bod buddiannau ystadegau mwy mynych yn uchel neu'n ganolig.
- Ymhlith yr agweddau cadarnhaol eraill ar ddata gweinyddol ac arolygon a nodwyd gan ymatebwyr roedd y potensial i ddarparu amcangyfrifon blynyddol o'r boblogaeth mwy cywir, ystadegau blynyddol manylach a lliniaru effaith cyfraddau ymateb gostyngol ar gyfer cyfrifiadau ac arolygon.
- Fodd bynnag, ni fyddai'r ffaith bod ystadegau ar gael yn amlach yn gwneud iawn am golli data ar boblogaethau ac ardaloedd bach a ddarperir gan y cyfrifiad a gynhelir bob deng mlynedd yn draddodiadol. Nododd dros 80 y cant o sefydliadau a thros 60 y cant o unigolion y byddai colli data ar ardaloedd bach yn cael effaith sylweddol ar eu gwaith.
- Mynegwyd cryn bryder na fyddai'r arolwg arfaethedig o 4 y cant yn diwallu anghenion defnyddwyr ar gyfer data ar ardaloedd a phoblogaethau bach iawn.
- Ymhlith y materion eraill a godwyd ynghylch ansawdd ystadegau i gefnogi cyfrifiad ar-lein roedd parhau â'r gyfres 200 mlynedd o ystadegau o'r boblogaeth gan y cyfrifiad a'r gallu cysylltiedig i olrhain newidiadau mewn cymdeithas dros amser ar sail gyson a chymaradwy.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch amseroldeb cynnyrch y cyfrifiad, yn arbennig y ffaith na chaiff y cynnyrch cyntaf ei gyhoeddi am dros flwyddyn ar ôl diwrnod y cyfrifiad a bod y cynnyrch mwyaf manwl yn cymryd dwy i dair blynedd.

Ymarferoldeb a chostau cyfrifiad ar-lein a data gweinyddol

- Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol bod SYG yn brofiadol ym maes cynnal cyfrifiad bob deng mlynedd a'i bod yn gallu rheoli'r broses o newid i gyfrifiad a gynhelir ar lein yn bennaf. Gwnaeth tua 90 y cant o ymatebwyr sylwadau yn cefnogi cyfrifiad ar-lein.
- Roedd llawer o ymatebwyr yn poeni am allgáu digidol a'r effaith anghymesur bosibl ar aelodau agored i niwed o'r boblogaeth. Roeddent yn ofni y gallai llwyfan ar-lein eithrio grwpiau penodol o'r boblogaeth sy'n defnyddio'r we i raddau llai, gan gynnwys yr henoed, trigolion anabl neu wledig, a'r rhai nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
- Roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu nad prif ddiben casglu data gweinyddol yw cynhyrchu ystadegau ond darparu gwasanaethau, ac y gallai anghywirdeb wrth gasglu data, neu newidiadau mewn polisi wrth gasglu data, effeithio ar ansawdd ystadegau. Gofynnodd ymatebwyr a fyddai gan SYG ddigon o ddylanwad dros gasglu'r data priodol o ffynonellau fel Cyllid a Thollau EM a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Gofynnodd rhai ymatebwyr a oedd gan SYG yr arbenigedd a'r profiad i gyflwyno'r broses o ddefnyddio data gweinyddol mewn ffordd chwim. Roedd rhai yn amau a fyddai buddiannau cost honedig data gweinyddol ac arolygon yn cael eu gweld yn ymarferol ac nid oeddent yn siŵr y byddai'n cynrychioli gwerth am arian. Gwnaeth rhai ymatebwyr hyd yn oed ddarogan y gallai'r costau terfynol fod yn uwch na'r hyn a gyfrifwyd, o ystyried y duedd i brosiectau TG cyhoeddus mawr orwario.

- Pwysleisiwyd y gofyniad am ddeddfwriaeth newydd er mwyn defnyddio ffynonellau gweinyddol eraill a chynnal arolygon gorfodol gan rai.
- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch y ffaith nad oes cofrestr o'r boblogaeth na chynllun rhif adnabod personol a oedd, yn eu barn hwy, yn ofyniad angenrheidiol er mwyn cysylltu setiau data gweinyddol. Nodwyd na fyddai'r defnydd o ddata gweinyddol ac arolygon yn debygol o lwyddo heb gofrestr o'r boblogaeth a chynllun adnabod.

Preifatrwydd, diogelwch, baich a derbynioddeb y cyhoedd

- Er bod lleiafrif yn poeni am 'faich' cynnal cyfrifiad bob deng mlynedd i ddeiliaid cartrefi, nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o'r farn bod y cyfrifiad yn broblem. Mynegodd rhai ymatebwyr bryder am hacio system cyfrifiad ar-lein. Fodd bynnag, mae'n ddi-ddorol nodi bod llai na 6 y cant o ymatebwyr wedi sôn am breifatrwydd neu ddiogelwch mewn perthynas â'r cyfrifiad bob deng mlynedd.
- Soniodd 13 y cant o ymatebwyr am breifatrwydd neu ddiogelwch mewn perthynas â data gweinyddol ac arolygon.
- Gofynnodd rhai a oedd yn briodol neu'n gyfreithlon¹ aildefnyddio data at ddibenion ystadegol pan y'i casglwyd at ddibenion eraill. Roedd rhai yn pryderu y gallai ansawdd y wybodaeth a roddwyd i ffynonellau gweinyddol ddirywio yn sgil aildefnydd ehangach.

Gofynion cydraddoldeb

- Tanlinellodd ymatebwyr y byddai cynnal cyfrifiad ar-lein bob deng mlynedd yn golygu y byddai ystadegau cymdeithasol-ddemograffig o ardaloedd a phoblogaethau bach yn dal i fod ar gael, gan felly ei gwneud yn bosibl i adnabod grwpiau agored i niwed a lleiafrifol. Ystyriwyd bod hyn yn hynod bwysig o ran gwaith monitro cydraddoldebau a galluogi sefydliadau i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2011 yn sgil Deddf Cydraddoldeb 2010. Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn hyderus y byddai data gweinyddol ac arolygon yn diwallu'r anghenion hyn.

Astudiaeth Hydredol a Samplau o Gofnodion Dienw

- Mae Astudiaeth Hydredol (AH) SYG yn cynnwys data cysylltiedig o'r cyfrifiad ar gyfer 1 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae gwybodaeth o Gyfrifiadau 1971, 1981, 1991, 2001 a 2011 wedi'i chysylltu ar draws cyfrifiadau yn ogystal â gwybodaeth am ddi-gwyddiadau fel genedigaethau, marwolaethau a chofrestriadau canser. Caiff y set ddata ddienw sy'n deillio o hynny ei defnyddio'n helaeth at ddibenion ymchwil, o dan amodau mynediad a reolir yn ofalus. Mae SYG hefyd yn cyhoeddi samplau bach o gofnodion dienw (SGDau) at ddefnydd ymchwilwyr cymeradwy.
- Cafodd y defnydd penodol o ddata lefel cofnodion o'r cyfrifiad at ddibenion yr AH ac yn y SGDau ei godi gan nifer o ddefnyddwyr arbenigol. Y prif bryder oedd y byddai rhoi'r gorau i gynnal cyfrifiad bob deng mlynedd yn arwain at golli data ar lefel cofnodion, ac na fyddai'r AG yn arbennig yn cael ei chynnal i'r safon ofynnol. I rai defnyddwyr, mae'r AH a'r SGDau

¹ Mae darpariaethau penodol yn Neddf Diogelu Data 1998 yn ei gwneud yn bosibl i ddefnyddio data at ddibenion ystadegol ac ymchwil. Mae darpariaethau yn Neddf Ystadegol a Gwasanaeth Cofrestru 2007 yn galluogi SYG i ddefnyddio ffynonellau gweinyddol at ddibenion ystadegol ac ymchwil, diogelu cyfrinachedd a chosbi unrhyw dor-rheol.

yn hanfodol i'w hymchwil a'u penderfyniadau dilynol, gan gynnwys ymchwil i ddisgwyliad oes a pholisïau cysylltiedig fel pensiynau ac oedran pensiwn.

Cymru

- Roedd gan nifer o ymatebwyr ddiddordeb mewn materion a oedd yn benodol i Gymru. Yn arbennig, roedd y rheini â diddordeb yn y Gymraeg yn awyddus i gael data ar lefel ardaloedd bach ar sgiliau iaith Gymraeg er mwyn deall ymhle y siaradwyd yr iaith a chan faint o bobl.
- Ymhlith y materion eraill a godwyd roedd y ffaith bod gan Gymru boblogaethau llai mewn awdurdodau lleol na Lloegr, a llawer o ardaloedd prin eu poblogaeth gwledig iawn. Ystyriwyd bod ystadegau o ardaloedd bach i nodi anghenion penodol yr ardaloedd hyn yn hanfodol ac roedd cyfrifiad bob deng mlynedd yn cael ei ffafrio gan lawer o ymatebwyr o Gymru.
- Cafwyd pryderon arbennig hefyd ynghylch allgáu digidol yng Nghymru a'r angen i sicrhau bod pob grŵp o'r boblogaeth yn gallu ymateb, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd â lefelau mynediad isel i'r rhyngrwyd.

Hanes y teulu ac ymchwil hanesyddol

- Mae bron hanner yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn defnyddio data'r cyfrifiad at ddibenion hanes y teulu. Dywedwyd bod y cyfrifiad yn etifeddiaeth i ymchwilwyr teulu, gan roi cipolwg cyfan ar boblogaeth Prydain.
- Nid oedd nifer fach am weld y cyfrifiad yn cael ei newid o gwbl, ond roedd y mwyafrif o'r farn y byddai cyfrifiad ar-lein yn darparu'r wybodaeth achyddol ofynnol.
- Ni wnaeth llawer o ddefnyddwyr hanes y teulu ddangos fawr ddim cefnogaeth, os o gwbl, i ddefnyddio data gweinyddol ac arolygon yn unig. Gallai eraill weld rhywfaint o werth mewn data gweinyddol, ond dim ond os oedd ar gael i haneswyr yn y dyfodol ochr yn ochr â gwybodaeth a gesglir gan y cyfrifiad bob deng mlynedd.

Newid a Risg

- Roedd dros 90 y cant o ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch newid am resymau hwyluso defnydd, technolegol ac economaidd. Cafodd gwerth posibl y ddau ddull ei gydnabod.
- Deallwyd y rhesymeg dros newid i gyfrifiad ar-lein bob deng mlynedd ac fe'i cefnogwyd yn gyffredinol. Roedd cefnogaeth hefyd i'r defnydd cynyddol o ddata gweinyddol, ynghyd â dealltwriaeth ohono.
- Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid datblygu'r opsiwn data gweinyddol ac arolygon gan ei fod yn cynnig y potensial i wella amcangyfrifon blynyddol o'r boblogaeth rhwng cyfrifiadau. Fodd bynnag, credwyd nad oedd digon o amser i roi hyn ar waith erbyn 2021, a bod risgiau gwneud hynny'n rhy uchel, yn enwedig y rhai yn ymwneud ag ansawdd ystadegol a diffyg meincnodau dibynadwy.
- Awgrymodd tua thraean o ymatebwyr y dylid cyflwyno camau hybrid yn 2021, gan gynnig cyfuniadau amrywiol o'r ddau opsiwn. Cydnabuwyd, er y byddai cyfuno'r ddau opsiwn yn cynyddu'r gost yn y byrdymor, y byddai'n hwyluso datblygiad pellach data gweinyddol ac arolygon ac yn golygu y gellid ystyried yr opsiwn hwn yn fanylach dros y blynyddoedd i ddod.

1 Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Bob deng mlynedd, ers dros 200 mlynedd, bu'n ofynnol i bob cartref yng Nghymru a Lloegr ymateb i'r cyfrifiad. Rhydd y cyfrifiad wybodaeth am dai a'r boblogaeth sydd ei hangen ar lywodraeth ganolog a lleol i gynllunio a rhedeg gwasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg. Mae'r data hefyd yn cael ei ddefnyddio'n eang gan academyddion, busnesau, sefydliadau gwirfoddol a'r cyhoedd. Darparodd Cyfrifiad 2011 ystadegau o'r boblogaeth a gaiff eu defnyddio am y degawd nesaf gan gynllunwyr, llunwyr polisi ac ymchwilwyr ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

'Data on the population is used to ensure that we build our schools where they are required by our children, that hospitals are equipped to deliver the services that we need, that transport links reflect the journeys we undertake. With good data we can get these things right (and can hold people to account should things go wrong). Without it children are left without school places, patients do not get the care they need and we sit frustrated on trains and motorways. It matters to all of us.'

Y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol

Gwnaeth Rhaglen Y Tu Hwnt i 2011 SYG adolygu gofynion cyhoeddus o ran ystadegau o'r boblogaeth a'r ffordd orau o'u bodloni yn y dyfodol. Mae gwelliannau mewn technoleg ac yn ffynonellau data'r llywodraeth yn cynnig y cyfle i foderneiddio'r cyfrifiad, neu i ddatblygu dull arall sy'n ailddefnyddio data gweinyddol sydd gan y llywodraeth eisoes.

Ystyriwyd nifer o ddulliau, ac fe'u haseswyd yn erbyn cyfres o feini prawf gwerthuso gan gynnwys ansawdd ystadegol, cost, ymarferoldeb technegol a chyfreithiol, derbynioldeb ymhlith y cyhoedd a'r baich ar y cyhoedd. Arweiniodd y gwaith hwn at bennu dau ddull o gynnal y cyfrifiad yn y dyfodol:

- unwaith bob degawd, fel yr un a gynhaliwyd yn 2011, ond ar lein yn bennaf;
- gan ddefnyddio data sydd gan y Llywodraeth eisoes ac arolygon blynyddol gorfodol.

Rhydd yr adroddiad hwn grynodedb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus 'Y Cyfrifiad a Darparu Ystadegau o'r Boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y Dyfodol' a gynhaliwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am gyfnod o 12 wythnos rhwng 23 Medi a 13 Rhagfyr 2013.

Mae'r [ddogfen ymgynghori a'r dogfennau ategol](#) fel a ganlyn:

- Y Cyfrifiad a Darparu Ystadegau o'r Boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yn y Dyfodol
- Crynodeb o'r defnydd a wneir o wybodaeth o'r cyfrifiad, Medi 2013
- Crynodeb o fuddiannau gwybodaeth o'r cyfrifiad, Medi 2013

1.2 Cwmpas

Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar lein, ac roedd modd cyflwyno sylwadau drwy holiadur ar-lein. Cafwyd fersiynau Cymraeg o'r ymgynghoriad a'r holiadur. Ategwyd yr ymgynghoriad gan dros 30 o ddigwyddiadau cyhoeddus a thargedwyd trafodaethau ag ystod eang o ddefnyddwyr. Ceir manylion y digwyddiadau yn Atodiad C.

Hwn oedd yr ail ymgynghoriad cyhoeddus gan SYG ar Raglen Y Tu Hwnt i 2011. Gwnaeth y cyntaf, a gynhaliwyd yn 2011, ganolbwyntio'n bennaf ar ofynion defnyddwyr o ran ystadegau o'r boblogaeth ac ystadegau cymdeithasol-ddemograffig, gan gynnwys eu hamlder, cywirdeb a daearyddiaeth. Helpodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio ymchwil ddilynol a gynhaliwyd gan y Rhaglen.

Disgrifiodd yr ail ymgynghoriad y ddau opsiwn posibl, ynghyd â'u cryfderau a'u gwendidau a'r gwahanol fathau o wybodaeth y gallent eu darparu. Cafodd aelodau'r cyhoedd eu gwahodd i

ymateb gan roi eu barn ar y ddau opsiwn a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori ac yn arbennig i gynnig sylwadau ar y canlynol:

- effaith colli ystadegau ar gyfer ardaloedd daearyddol bach a grwpiau bach o'r boblogaeth;
- buddiannau posibl cael ystadegau mwy mynych o nodweddion y boblogaeth;
- sut y gallai archifo ffynonellau gweinyddol effeithio ar ymchwil hanesyddol ac achyddol;
- y risgiau sydd ynghlwm wrth y ddau opsiwn a sut y gellid eu rheoli.

Mae Atodiad A yn rhestru'r cwestiynau a ofynnwyd. Er hwylustod, caiff y safbwyntiau a roddwyd gan ymatebwyr eu dosbarthu fesul pwnc allweddol yn hytrach na threfn y cwestiynau. Mewn rhai achosion, mae'r crynodeb hwn yn sôn am bwysau'r safbwyntiau a roddwyd gan ymatebwyr.

Mae SYG yn croesawu ansawdd a nifer yr ymatebion a gafwyd, a chaiff llawer eu dyfynnu yn ystod yr adroddiad hwn. Rhestrir yr holl ymatebwyr yn Atodiad A ac mae eu cyflwyniadau ar gael ar lein oni ofynnwyd iddynt aros yn gyfrinachol ymlaen llaw.

2 Dadansoddiad o'r ymatebwyr

Cafwyd 715 o ymatebion i'r ymgynghoriad, 657 ohonynt ar lein a 58 drwy e-bost neu lythyr. Rhestrir y sefydliadau a'r unigolion a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn Atodiad B, a chyhoeddir yr holl ymatebion ar lein ochr yn ochr â'r adroddiad hwn². Daeth dros 500 o bobl i tua 30 o ddigwyddiadau a chyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae Atodiad C yn cynnwys rhestr lawn o'r digwyddiadau hyn.


2.1 Ymatebwyr

Derbyniodd yr ymgynghoriad ymatebion gan unigolion (444) ac ar ran sefydliadau (273). Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r ymatebion a gafwyd gan sefydliadau yn cynnwys ymatebion wedi'u coladu oddi wrth sawl corff neu unigolyn. Er enghraifft:

- Gwnaeth y Grŵp Defnyddwyr Demograffig ymateb ar ran ei aelodau a oedd yn cynnwys cwmnïau fel Barclays, y Co-operative, Boots a John Lewis.
- Cafwyd ymateb gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol. Roedd ymateb Cymdeithas Cynghorau Gogledd-ddwyrain Lloegr yn cwmpasu 12 o awdurdodau lleol a leolir yng Ngogledd-ddwyrain Lloegr.

Dengys Ffigur 1 nifer yr ymatebwyr a nododd eu hunain ar gyfer pob categori sefydliadol (273 i gyd). Cafwyd y rhan fwyaf o ymatebion sefydliadol gan lywodraeth leol neu is-genedlaethol a sefydliadau gwirfoddol, cymunedol ac nid er elw.

Ffigur 1 - Nifer yr ymatebion yn ôl y math o sefydliad



* Ymhlith y sefydliadau a restrir fel arall mae sefydliadau trafndiaeth, melinau trafod, cwmnïau ymgynghori, y gwasanaethau brys a'r cyfryngau.


2.2 Defnydd o ddata

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi'r rhesymau y maent yn defnyddio ystadegau o'r cyfrifiad neu ymatebion i'r cyfrifiad. Fel y gwelir yn Ffigur 2, at ddibenion ymchwil y mae unigolion yn defnyddio'r data ar y cyfan. Gwneir y defnydd mwyaf ohono ar gyfer ymchwil hanes y teulu (69 y cant) ac yna

² Ar wahân i'r rheini a ofynnodd yn benodol i'w hymateb aros yn breifat.

ymchwil hanes cymdeithasol (41 y cant). Dylid nodi mai'r ddau brif ddefnydd a nodwyd gan unigolion oedd y ddau ddefnydd lleiaf a nodwyd gan sefydliadau.


Ffigur 2: Y prif ddefnydd o ystadegau o'r boblogaeth a thai yn ôl y ganran¹ o ymatebwyr unigol



¹Nid yw'r canrannau yn creu cyfanswm o 100 am fod llawer o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn defnyddio'r data am fwy nag un rheswm.

I'r gwrthwyneb, fel y gwelir yn Ffigur 3, mae 62 y cant o sefydliadau yn defnyddio'r data i ddatblygu polisiau ac mae 59 y cant yn ei ddefnyddio i fonitro a gwerthuso polisiau. Ymhlith y mathau eraill o ddefnydd cyffredin a wna sefydliadau o'r data mae cynllunio a darparu gwasanaethau (55 y cant), ymchwilio i bolisiau (52 y cant) a gwneud cais am arian (49 y cant). Dim ond 11 y cant o'r sefydliadau a ymatebodd sy'n defnyddio'r data ar gyfer ymchwil hanes y teulu.

Ffigur 3: Y prif ddefnydd o ystadegau o'r boblogaeth a thai yn ôl y ganran¹ o sefydliadau a ymatebodd



¹Nid yw'r canrannau yn creu cyfanswm o 100 am fod llawer o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn defnyddio'r data am fwy nag un rheswm. Ymhlith y sefydliadau 'arall' mae sefydliadau trafnidiaeth, melinau trafod, cwmnïau ymgynghori, y gwasanaethau brys a'r cyfryngau.

2.3 Defnydd o ddata yn ôl y math o ymatebydd

Mae dros 70 y cant o sefydliadau llywodraeth leol neu is-genedlaethol yn defnyddio data'r cyfrifiad i ddatblygu a gwerthuso polisiau a gwneud ymchwil gymdeithasol. Mae dros hanner (56 y cant) o asiantaethau llywodraethol yn defnyddio'r data i ddatblygu polisiau a gwneud ymchwil polisi a chymdeithasol. Yn ôl y disgwyl, mae ymatebwyr o sefydliadau addysg a phrifysgolion yn defnyddio'r data ar gyfer ymchwil academiaidd yn bennaf (61 y cant).

Er i amrywiaeth o safbwyntiau gael eu mynegi mewn ymateb i'r ymgynghoriad, ni chafodd y rhain eu llywio gan sector yr ymatebydd (ar wahân i achyddion, sydd â dyhead cryf i gynnal cyfrifiad papur neu ar-lein). Roedd y gwahaniaethau barn yn adlewyrchu gwahanol ddefnyddiau o fewn pob sector. Rhydd Atodiad D ddadansoddiad cryno o'r defnydd o ystadegau o'r boblogaeth a chartrefi yn ôl sector.

3 Ansawdd cynnyrch ystadegol

Gwnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr ganolbwyntio ar ansawdd cynnyrch ystadegol ac, yn arbennig, bwysigrwydd ystadegau ar gyfer ardaloedd daearyddol bach, grwpiau bach o'r boblogaeth a pha mor aml y'u darperir. Yn arbennig, mae'r Agenda Lleoliaeth wedi llywio pwysigrwydd data ar gyfer ardaloedd bach iawn. Yn yr adran hon cyflwynir y safbwyntiau a roddwyd ar y materion hyn ar gyfer y ddau opsiwn. Mae hefyd yn cyflwyno safbwyntiau mewn perthynas â pharhad, cymaradwyedd ac amseroldeb.

3.1 Ystadegau ar gyfer ardaloedd bach a grwpiau bach o'r boblogaeth

Roedd y broses o ddarparu ystadegau cyson a chymaradwy ar gyfer data ar ardaloedd bach, gan gynnwys Ardaloedd Cynnyrch ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach³, yn peri pryder mawr i lawer iawn o ymatebwyr. Gwnaeth y Llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau lleol danlinellu'n gryf bwysigrwydd data ar ardaloedd bach a chynnyrch croddabl manwl er mwyn cynllunio a dyrannu adnoddau'n effeithlon.

'We sometimes have very small pockets of [housing] stock and even LSOA level can be a challenge at times. OA would be ideal for all data to go down to. We have really started to use data to drive strategic decision making and especially when looking at community investment... Even using estimates at the lower geographies would be very dangerous when making key decisions on investment and services.'

Tai Cymunedol Knightstone

'[OA/LSOA level] information is highly valuable for local authorities... Without the low area level data provided by a target 100% sample, basic information which is crucial for population projections, school roll planning, resource allocation and negotiations with developers would not be available.'

Bwrdeistref Hackney, Llundain

Mae gallu cael gafael ar ddata ar ardaloedd bach wedi dod yn fwyfwy pwysig yn sgil cyflwyno diwygiadau diweddar yn y sector cyhoeddus, fel yr Agenda Lleoliaeth.

'...we have a greater imperative to use such data because of a number of recent public sector reforms - the Localism Act 2011, the National Planning Policy Framework, welfare reforms, and the transfer of public health responsibilities.'

Arsyllfa Swydd Warwick

Cyfeiriwyd at y defnydd o ddata AC fel 'conglfeini' i gyfuno data'r cyfrifiad hyd at lefel ardaloedd daearyddol pwrpasol.

³ **OA - Ardal Gynnyrch** - Grwpiau o godau post sydd â chyfanswm poblogaeth o rhwng 100 a 625 o bobl, 300 ar gyfartaledd. Defnyddir OA ledled y DU fel yr uned sylfaenol o gynnyrch y cyfrifiad.

LSOA - Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is - Cyfanswm y boblogaeth rhwng 1,000 a 3,000 o bobl, 1,600 ar gyfartaledd. Mae pob LSOA yn cynnwys sawl OA.

MSOA - Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol - Cyfanswm y boblogaeth rhwng 5,000 a 15,000 o bobl, 7,800 ar gyfartaledd. Mae pob MSOA yn cynnwys sawl LSOA. Maent yn debyg o ran maint i ward etholiadol gyfartalog - er bod llawer mwy o amrywioldeb ym maint y wardiau etholiadol.

ALI - Awdurdod Lleol - Cyfanswm y boblogaeth rhwng 2,000 a miliwn o bobl, 160,000 ar gyfartaledd. Mae pob ALI yn cynnwys sawl MSOA.

'Population change within Peak District National Park is very slight, decreasing by less than 32 people between Census 2001 and Census 2011. It is our view that the once a decade online option will provide the small area and exact fit data required to monitor population and housing in the Peak District National Park accurately. This option also allows us to monitor change and compare data with the Census 2001 & 2011.'

Awdurdod Parc Cenedlaethol y Peak District


Hefyd nododd llawer na fydd dyfnder ac ehangder y newidynnau cymdeithasol-ddemograffig a geir yn y cyfrifiad ar gael gan ffynonellau eraill.

'We rely on the rich set of statistics at a small geographical area, i.e. output areas, for our products and services that we build from Census data. We need the rich set of variables it provides, particularly in relation to social characteristics....These types of variables are not available from any other source. This is particularly the case with cross-tabulated variables like age by sex by social grade. These are key to our business and clients....The Census provides as complete an understanding of the population as you can get.'

Beacon Dodsworth (ymgynghorwyr GIS a dadansoddi marchnata)

Holwyd ymatebwyr am effaith colli data ar ardaloedd bach arnynt hwy eu hunain neu eu sefydliad. Dangosir y canlyniadau cyffredinol yn Ffigur 4 isod.

Ffigur 4: Effaith colli data ar ardaloedd bach ar unigolion a sefydliadau



Dewisodd cyfanswm o 604 o ymatebwyr (381 o unigolion a 223 o sefydliadau) ateb y cwestiwn hwn, gydag 80 y cant o sefydliadau a 63 y cant o unigolion yn nodi bod yr effaith yn uchel.

Roedd y rheini o'r sector tai, y sector iechyd a'r llywodraeth yn llai tebygol o nodi bod yr effaith yn uchel na sefydliadau eraill.

Eglurodd ymatebwyr sut y byddai colli'r wybodaeth hon yn cael effaith andwyol ar eu gwaith. Er bod y gofynion penodol yn amrywio, roedd a wnelo pryderon cyffredinol â gallu cynllunio a thargedu adnoddau a gwasanaethau'n effeithiol i'r cyhoedd.

'The loss of data for populations and subgroups in small areas like LSOAs would be a significant backwards step and we believe the 4 per cent annual survey would be an inadequate alternative. The ability to access reliable statistics on population and attributes, including drill-down to sub-groups based on age, ethnicity or socio-economic groups is important for the effective monitoring of population health and its determinants; important for informing policy in improving public health and important for informing need-based service provision across the public sector.'

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

'Removal of these levels would greatly reduce our knowledge of these areas. Lower super output area data highlighted the current level and growth of unpaid carers for example. This enables our authority to prioritise and target support in particular areas of need. Parish councils are increasingly self-determining, therefore understanding demography, housing need, number of households or further evidence for their vital neighbourhood plans, [if these levels were removed] would greatly diminish. Their ability to self-govern would be significantly weakened.'

Cyngor Bwrdeistref Chichester


'A census that fails to provide robust attribute data for small areas is not worth carrying out. (By small area we mean Output Area and not the crude Lower Super Output Area, which are of no use to practical business users)... Given the breadth of organisations that utilise small area data derived from the census and the high probability that alternatives would produce weaker investment decisions we believe there is likely to be a negative effect on the UK economy.'

CACI Ltd (Cwmni Ymgynghori Marchnata a Systemau Gwybodaeth)

3.2 Amllder

O ystyried mai un o anafanteision cynnal cyfrifiad bob deng mlynedd yw prinder cynnyrch, croesawyd y posibilrwydd o weld cynnyrch mwy mynych yn sgil defnyddio data gweinyddol ac arolygon. Gofynnwyd i ymatebwyr nodi faint o fudd y byddent yn ei gael o gynnyrch mwy mynych a dewisodd cyfanswm o 570 o ymatebwyr (356 o unigolion a 214 o sefydliadau) ateb y cwestiwn. Mae Ffigur 5 isod yn dangos mai sefydliadau oedd fwyaf tebygol o nodi mai budd canolig y byddent yn ei weld tra unigolion oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddai budd isel o gael gwybodaeth fwy mynych. Serch hynny gwnaeth mwy o ymatebwyr o'r ddwy garfan nodi budd uchel neu ganolig na budd isel, neu ddim o gwbl. Mae gan y rhan fwyaf o ymatebwyr unigol ddi-ddordeb mewn data'r cyfrifiad at ddibenion ymchwil hanesyddol yn bennaf, lle mae amllder yn llai perthnasol.

Ffigur 5: Budd canfyddedig data mwy mynych i unigolion a sefydliadau



Y rhai o'r sectorau tai, ymchwil i'r farchnad a chymdeithasol, cymdeithasau proffesiynol a sectorau eraill oedd fwyaf tebygol o ddweud bod budd uchel i ddata mwy mynych. Y rhai o'r sector iechyd, asiantaethau'r Llywodraeth, y sector addysg neu brifysgolion, y sector gwirfoddol, y sector cymunedol neu'r sector nid er elw a llywodraeth leol neu is-genedlaethol oedd fwyaf tebygol o ddweud bod budd canolig. Ym marn ymchwilwyr hanes y teulu nid oedd fawr ddim budd, os o gwbl, i ddata mwy mynych.

Eglurodd ymatebwyr y byddai data mwy mynych o bosibl yn golygu bod modd nodi tueddiadau a newidiadau yn y boblogaeth yn fwy effeithiol. Wrth sôn am y buddiannau hyn cyfeiriwyd yn aml at y cynnydd yn y boblogaeth a welwyd rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011 a'r cynnydd cyflym mewn amrywiaeth mewn rhai ardaloedd.

'There would be additional benefit to us from being able to identify city-level trends earlier. For example, our simulations of survey outputs suggest that we would have been able to identify the trend in the non-UK born population earlier than the Census allowed. This is a key trend of the last decade which has driven dramatic population change in some parts of the city, something we have only fully understood following the release of 2011 Census results.'

Cyngor Dinas Rhydychen

Ystyriwyd bod y gallu i nodi newidiadau yn y boblogaeth yn gynt yn werthfawr o bosibl o ran cynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon.

'The main positive aspect to option 2 [administrative data and surveys approach] is the speed that data is released. This will give organisations the opportunity to more quickly respond to population changes when planning initiatives for the futureThe environment we live in is changing rapidly, and we feel the Census needs to evolve to reflect these changes. By releasing results more frequently we will be able to build a clearer picture of the environment in which we operate, and make changes to our services to reflect these.'

Tai Cymunedol Greenfields

'...the 10 year gap between each Census is no longer practical for local authorities. Having additional information (if accurate) on population figures and characteristics would enable local authorities to evidence social changes much quicker which would enable us to react to social changes and adjust our services accordingly. This will also allow us to allocate our resources more effectively.'

Cyngor Dosbarth Cherwell a De Swydd Northampton

Er gwaethaf cefnogaeth gyffredinol i gynnyrch mwy mynych yn sgil data gweinyddol ac arolygon, roedd nifer o gafeatau a'r un mwyaf cyffredin oedd na fyddai cynnyrch mwy mynych yn gwneud iawn am golli data ar ardaloedd bach.

'Weighing up the benefit of accurate data at a local level once a decade or more frequent but less accurate data; we would strongly suggest that accuracy, transparency and comparability should overrule frequency. '

Bwrdeistref Hammersmith a Fulham, Llundain

'Administrative sources are promising, particularly the prospect of more timely data and ONS's research in this area to date is encouraging; but we do not yet think that there is sufficient evidence that the benefits of wholesale adoption of this method in 2021 will outweigh the loss to councils in terms of the breadth and quality of outputs. '

Cymdeithas Llywodraeth Leol

3.3 Materion eraill yn ymwneud ag ansawdd ystadegol

Ymhlith y materion eraill a godwyd ynghylch cynnal cyfrifiad ar-lein roedd parhad data a'r gallu cysylltiedig i olrhain newidiadau dros amser mewn modd dibynadwy.

'The collection of consistent and statistically evaluated questions is also an important consideration as it ensures we are comparing like with like over time – and when there have been changes they are clear to see; The resulting mass of small area data on this comparable nature that comes out of the census is invaluable for looking at both small geographies and small population groups, and importantly their characteristics, which would otherwise be hidden. '

Cyngor Sir Hampshire

Fodd bynnag, gwnaed heriau difrifol i amseroldeb cynnyrch presennol y cyfrifiad a chafwyd awgrym cyfatebol y gallai cyflwyno cyfrifiad ar-lein wella amseroldeb.

'The census option's obvious weakness is that it is out-of-date before it is published - even if a fully online census can deliver outputs in a timelier manner, it will still be looking back at an ever-distancing point in time. '

Bwrdeistref Camden, Llundain

Ymhlith manteision eraill yr opsiwn gweinyddol a nodwyd gan ymatebwyr roedd cynnydd yng nghywirdeb amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng cyfrifiadau a'i werth hirdymor o ran lleihau'r ddibyniaeth ar gyfraddau ymateb gostyngol mewn cyfrifiadau ac arolygon.

'The admin/ survey option is obviously the way forward in the long term due to cost pressures and the need to reuse expensively collated material; falling response rates to censuses and surveys; improvements to data gathering, analysis and presentation; and need for regularly updated statistics or on new topics as issues present themselves.'

4 Ymarferoldeb a chostau cyfrifiad ar-lein a data gweinyddol

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno sylwadau ar faterion gweithredol ac effaith bosibl materion o'r fath ar ansawdd ystadegol.

4.1 Cyfrifiad ar-lein

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddor o gyflwyno cyfrifiad ar-lein.

'... there's also a certain degree of inevitability about the move towards a more web-based Census. Due to more people's increasing acceptance of technology in everyday life, the proportion of on-line responses would naturally increase over ten years previously.'

Dinas a Sir Abertawe

Fodd bynnag, er i gyfrifiad ar-lein gael ei gefnogi'n eang mewn egwyddor, roedd nifer o bryderon ymarferol ynghlwm wrth allgáu digidol. Pwysleiswyd mai'r rheini sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol yw'r rheini sydd hefyd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd o gymdeithas. Nid oedd yn ymddangos bod rhai ymatebwyr yn gwybod bod y cyfrifiad bob amser yn rhoi gwybodaeth a chymorth i ddinasyddion agored i niwed a'r rhai sydd angen cymorth, ac y byddai'n parhau i wneud hynny yn yr amgylchedd ar-lein. Byddai hyn yn cynnwys holiaduron papur i'r rhai a oedd angen un.

'...the loss of a paper based census method assumes that all those participating have internet access and the skills to participate online. This ignores the fact that digital exclusion is an ongoing problem. It is estimated that there are 10 million adults in the UK who do not use or have access to computers and the internet (Race Online, 2010). Many within this group are also likely to face social exclusion and economic deprivation.'

Cymdeithas Cymdeithasegol Prydain

'...according to ONS 2012 data, 7.1 million adults (15%) in the UK have never used the internet... The move to an online-only census risks leaving the elderly, rural, disabled and those on low incomes disenfranchised.'

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

'Our research has shown that homeless people often have poor IT skills, and some have limited literacy and numeracy. In addition, because of the environment of much supported accommodation for homeless people, it can be difficult to access computers even for those who have the skills needed. It is important that any changes to the census do not exclude those who find online forms difficult to manage.'

Homeless Link

Roedd rhai o'r farn y byddai angen hyd yn oed fwy o gymorth gyda'r opsiwn ar-lein na chyfrifiad papur traddodiadol oherwydd ni fyddai rhai dinasyddion yn debygol o ymateb ar-lein, yn enwedig mudwyr newydd. Ni fyddai a wnelo cymaint â mynediad digidol, er na fyddai gan rai cartrefi gyfarpar na sgiliau TG, ond gallu digidol ac ewyllys.

[The main risks for the on-line Census are]: Resistance to responding on-line and consequent need for much greater support, follow-up and provision of alternative methods. Such resistance may occur disproportionately among older people, people with learning difficulties, recent migrants with insecure immigration statuses. The much greater demand on resources may result in some groups not receiving appropriate support and therefore unable to complete an on-line response.'

Cymdeithas Cyfraith Gwahaniaethu

O ganlyniad i allgáu digidol, roedd ymatebwyr o'r farn y gallai cyfraddau ymateb i'r cyfrifiad gael eu peryglu a fyddai, yn ei dro, yn cael effaith negyddol ar gostau casglu data, ansawdd allbynnau a phenderfyniadau dilynol yn seiliedig ar y data.

'This would mean that citizens who are less likely to be online such as the elderly, rural, disabled and people on low incomes - may not actually complete the 2021 census. This puts at risk the integrity of the data that will be collected. In turn this puts at risk the services which are provided by both central and local government that rely on census data to provide accurate levels of funding and service provision.'

Keep Me Posted (partneriaeth sy'n cynnwys elusennau, grwpiau buddiant a busnesau sydd o blaid dewis defnyddwyr mewn cysylltiadau rhwng busnesau a defnyddwyr.)

4.2 Data gweinyddol ac arolygon

Ymhlith y pryderon gweithredol a oedd yn ymwneud â data gweinyddol ac arolygon roedd ansawdd data gweinyddol a hefyd p'un a fyddai newidiadau i systemau gweinyddol yn golygu na fyddai'r data ar gael mwyach, neu ei fod yn llai cyflawn. Codwyd pryderon hefyd ynghylch p'un a oedd gan SYG ddigon o'r sgiliau cywir, a'r gofyniad am ddeddfwriaeth. Roedd y ffaith nad yw prif ddiben ffynonellau data gweinyddol yn gysylltiedig â chynhyrchu ystadegau yn peri cryn bryder.

'The primary function of administrative datasets are not the collection of population statistics...Administrative sources are only as good as the record management systems in place at their source organisation, which will generally not have been designed to answer census questions. Will the administrative sources have opportunities to adjust their data collections to answer census questions more accurately?'

Iechyd Cyhoeddus Lloegr

Arweiniodd hyn at bryderon ynghylch lefelau cywirdeb y wybodaeth a gedwir gan ffynonellau data gweinyddol, yn sgil mewnbynnu data mewn ffordd anghyson, aelodau'r cyhoedd yn rhoi gwybodaeth anghywir neu ddewis peidio â chofrestru eu manylion.

'Consistency would be required in a survey/administrative data option in the measurement or collection of data on ethnicity. Currently a number of approaches are used which differ from the standard census self-identification question. For example, in the school census, school staff often complete the ethnicity question on behalf of the pupils.'

Canolfan ESRC ar Ddynameg Ethnigrwydd

Mater arall a godwyd yw cysondeb a'r angen i gael gafael ar ffynonellau data gweinyddol yn barhaus dros amser ac effaith bosibl newidiadau mewn polisi ar barhad a chymaradwyedd cynnyrch ystadegol. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr yn benodol at y newidiadau diweddar i Fudd-dal Plant.

'...Child Benefit records would be considered an important source of information for the census under the administrative data option, but recent changes to policy now mean it is no longer a universal benefit for all children, and its coverage of new born babies and parents of young children will be reduced in the future. This policy change reduces its potential benefit to the census and would impact on the quality of data it could provide.'

Uned Ddata Llywodraeth Leol, Cymru

'In the event that non-fixed data sources are used to piece together a national picture then there is again an enhanced risk that the coherence of data series will be broken. This is exemplified by recent changes to child benefit which have seen around 1.2 million families removed from this dataset (700,000 completely, the remainder partially). This would render this type of record as meaningless in compiling local population counts of younger people now that wealthier families are no longer eligible.'

Cyngor Sir Durham

Mynegwyd peth pryder nad oes gan SYG yr arbenigedd na'r profiad gofynnol i ddefnyddio data gweinyddol yn effeithiol erbyn 2021. Yn ogystal, codwyd cwestiynau ynghylch faint o bŵer a dylanwad a allai fod gan SYG dros y sawl sy'n cyflenwi ffynonellau data gweinyddol fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

'Large government IT projects have a history of failing to deliver what was expected of them both in terms of budget and timescales. Whilst previous examples do not necessarily mean that future projects will suffer the same problems, it doesn't seem unreasonable to expect unforeseen problems to occur. The census is much too important a resource to experiment with, especially if it might take 'a number of decades'

Cyngor Sir Dyfnaint

'... I think ONS is being naïve if it thinks that its needs, and those of researchers in the distant future, will over-ride the operational requirements of other government bodies.'

Prifysgol Essex

'The ONS is unlikely to be able to dictate to such large and powerful organisations as the NHS and the HMRC how they collect their data, so there is no assurance that the data derived from these agencies will be consistent from year to year.'

Y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol, Cymdeithas Hanes Economaidd, Cymdeithas Hanes Gymdeithasol

Awgrymwyd hefyd fod angen gweld datblygiadau sefydliadol a datblygiadau o ran gallu o fewn SYG er mwyn cefnogi'r dull newydd o weithredu.

'This would also be a new skill set for ONS. We suggest that the Government establishes within the remit of the ONS or as a separate organisation the Office of Administrative Data. There is a need to ensure central responsibility for the quality and stability of administrative data. This is a different set of skills and responsibilities to those that the ONS currently holds.'

Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth Ardal Leol

